



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 12FED TACHWEDD, 2019

Lleoliad

Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

01286 679 878

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 4 Tachwedd 2019)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Dewi Owen
Anne Lloyd Jones
Mike Stevens

Aelodau Cyfetholedig:

Cynghorydd Bob Tyrrell
Nick Dawson
David Williams

Huw Evans

Nigel Willis
Desmond George
Cynghorydd Brian Bates

Guy Shaw

Cyngor Cymuned Aberdyfi
Aelod o Outward Bound Wales
Aelod o Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu
Aberdyfi
Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Bae
Ceredigion
Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi
Aelod o Glwb Hwyllo Dyfi
Aelod o Gymdeithas Cenedlaethol y Bad
Achub
Aelod o Gymdeithas Rhwyfo Aberdyfi

Sylwedyddion:

Peter Read
Dr John Jones-Morris
Cynghorydd Rob Triggs

Gareth Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Cyngor Tref Abermaw

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2019 / 2020

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2019 / 2020

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5 Mawrth 2019 fel rhai cywir

6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

8 - 24

I ystyried adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau

7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

I ystyried materion ar gais yr aelodau

a) Cei Aberdyfi

Peryglon Cei Harbwr Aberdyfi

8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3ydd Mawrth 2020

Eitem 5

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2019 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi

YN BRESENNOL

Y Cyng. Anne Lloyd Jones, Cyng. Dewi Owen, Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Dave Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwyllo Dyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

Sylwedyddion: Mr Neil Storkey (Clerc/Sylwedydd ar ran Cyngor Cymuned Aberdyfi)
Cyng Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw)

Hefyd yn bresennol:

Swyddogion

Llyr Jones	-	Uwch Reolwr Economi a Chymuned)
Arthur F. Jones	-	Uwch Swyddog Harbyrau
Bryn P. Jones	-	Swyddog Morwrol Traethau
William Stockford	-	Harbwr Feistr Aberdyfi
Siôn Owen	-	Swyddog Cefnogi Aelodau
Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Mr Brian Bates (Bad Achub), Mr Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig)

1. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 22 Mawrth 2018.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

3. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

(a) Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ei adroddiad, gan nodi:

- Ei fod yn rhagweld y byddai contractwyr angorfeydd yn gosod angorfeydd yn yr harbwr yn niwedd Mawrth, gan gyflwyno Tystysgrif Ansawdd Angorfeydd i'r Harbwrfeistr cyn y gellid angori unrhyw gwch.

- Fod adolygiad o drefniadau harbyrau Gwynedd yn cael ei gynnal gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau ar drefniadau diogelwch.
- Fod swydd harbwrfeistr cynorthwyol llawn amser ar fin cael ei hysbysebu, gyda'r bwriad o gael yr harbwrfeistr cynorthwyol newydd yn ei le erbyn y Pasg.
- Cyflwynodd adroddiad ar gyllidebau'r Harbwr, gan nodi tra bod tanwariant pan gynhyrchwyd yr adroddiad ariannol yn niwedd Chwefror, ac y byddai'r arian hwnnw wedi cael ei wario ar gwblhau gwaith rhaglunedig erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Fod gwariant tir ac adeiladau a nodwyd yn cael ei wario ar renti a chynnal a chadw o gwmpas yr harbwr. Roedd swyddfa'r harbwrfeistr wedi ei gynnwys yma, a nodwyd fod lleoliad swyddfa'r Harbwrfeistr yn cael ei adolygu gan nad oedd yr adeilad presennol yn cwrdd â gofynion modern.

Sylwadau a chwestiynau yn codi o'r drafodaeth:

- Faint o geisiadau oedd wedi eu derbyn ar gyfer angorfeydd?
- Nodwyd pryder fod y broses o benodi harbwrfeistr cynorthwyol yn araf, a bod yr amserlen yn dynn os oedd bwriad i benodi erbyn y Pasg.
- Sut y llwyddwyd i beidio gwario dim o'r gyllideb ar gyfer cychod a cherbydau?

Mewn ymateb nododd yr Harbwrfeistr ei fod yn amcangyfrif fod 75 i 80 ffurflen gais wedi eu derbyn. Byddai'n rhannu'r nifer terfynol gydag aelodau'r Pwyllgor oedd â diddordeb pan fyddai'r rhif hwnnw ar gael.

Ychwanegodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ei fod yn rhannu pryder aelodau'r pwyllgor am arafwch y broses o benodi harbwrfeistr cynorthwyol, ond bod diddordeb wedi ei ddangos yn y swydd. Nododd fod costau cychod a cherbydau'r Harbwr yn digwydd dod o gyllidebau eraill ac felly heb eu dangos ar y fantolen. Fodd bynnag, nododd fod cwch yr Harbwrfeistr wedi bod allan o'r dŵr ac angen gwaith atgyweirio cyn bod yn ddiogel i'w ddefnyddio, ond nad fyddai cyllideb ar gael i wneud y gwaith hwnnw tan y flwyddyn ariannol nesaf.

(b) Adroddiad yr Harbwrfeistr

Cyflwynodd yr Harbwrfeistr ei adroddiad gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Fod Harbwr Aberdyfi wedi cael archwiliad gan Dy'r Drindod ar drefniadau diogelwch a mordwyo, gan ganfod fod y trefniadau priodol mewn lle.
- Fod cwrs sianel fordwyo Harbwr Aberdyfi wedi culhau a symud i'r gogledd. 'Roedd hyn wedi achosi llawer o waith addasu er mwyn cynorthwyo a sicrhau diogelwch mordwyo. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwr er mwyn cael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.
- Fod gwaith cynnal a chadw wedi ei wneud, a gofynnodd am sylwadau ar raglen waith cynnal a chadw ar gyfer gaeaf 2018-19.
- Fod arwyddion diogelwch wedi eu gosod yn Nhywyn ac Aberdyfi yn dilyn adolygiad manwl ar y cyd gyda'r RNLI.
- Fod cyflwr y llwyfan cerdded pren bellach yn rhy ddrwg i'w drwsio a bod ei ddyfodol yn ansicr yn yr hinsawdd gyllidebol ariannol gyfredol. Tra bod mesurau mewn lle dros dro i warchod y twyni, byddai'r gwasanaeth yn ystyried pob opsiwn posib i warchod y llwybr i'r dyfodol.
- Fod y gwasanaeth yn parhau i aros i bersonau oedd ag eitemau ar y tir comin/storio i'w gwaredu. Tra bod hyn yn siom, 'roedd canfod fod aelodau eraill

o'r cyhoedd yn parhau i waredu deunyddiau gwastraffa r y safle yn siom bellach. Byddai gwaith i wella'r safle yn cael ei wneud yn fuan yn 2019.

- Fod gwaith tacluso wedi ei wneud ar y cei, gyda'r bwriad o glirio offer segur oddi yno. Byddai mwy o offer a chewyll pysgota yn cael eu symud o'r cei yn y dyfodol.
- Fod gwaith wedi ei wneud ar adnabod perchnogion cynwysyddion sydd wedi eu gosod yn ardal yr harbwr yn dilyn codi pryderon am eu cyflwr.
- Fod cyflwr y bont dros y Rheilffordd sy'n rhoi mynediad i Fryn Llestair wedi dirywio nes bod angen ei chau. 'Roedd y gwasanaeth yn aros am adroddiad strwythurol ar ei chyflwr cyn penderfynu ar ei dyfodol.
- Diolchodd am y cynigion o gymorth oedd wedi ei dderbyn er mwyn ceisio datrys y problemau oedd wedi codi o gwmpas yr harbwr.

Sylwadau a chwestiynau yn codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i staff yr harbwr am eu gwaith dros haf prysur.
- Oedd yno broblemau mordwyo wedi codi oherwydd y newid yn llwybr y sianel?
- Canmolwyd yr arwyddion diogelwch a osodwyd ar y cyd gyda'r RNLI. Awgrymwyd cynnwys gwybodaeth am lanw terfol ar yr arwyddion er mwyn amlygu'r peryglon i nofwyr.
- Ei fod yn synhwyrol tynnu'r arwyddion dros gyfnod y gaeaf er mwyn osgoi difrod gan dywydd garw'r gaeaf.
- Ei fod yn bwysig fod y twyni tywod ar y llwybr i'r traeth yn cael eu gwarchod. Pe na bai'n bosib gosod llwyfan cerdded pren newydd byddai peryg i'r bwllch yn y twyni agor ac effeithio ar yr amddiffynfa a gynigwyd gan y twyni rhag y môr.
- Gobaith y byddai'r Tir Comin/Storio yn cael ei glirio a'i ddiogelu yn fuan. Nodwyd fod y Clwb Hwyllo yn cynnig helpu i glirio.
- Nodwyd pryder ynglŷn â chyflwr wal y cei gan fod ei gyflwr wedi dirywio ymhellach a'i fod yn helpu i warchod Aberdyfi rhag difrod o'r môr.
- Fod edrychiad y cei yn bwysig, gan fod angen iddo fod yn ddeniadol i ymwelwyr yn ogystal â diogel.
- Fod cau'r bont i Fryn Llestair oherwydd ei chyflwr wedi ei gefnogi gan ddefnyddwyr rheolaidd er bod hynny wedi cael cryn effaith ar weithgareddau Outward Bound Wales.
- Gan fod canolfan Outward Bound Wales yn cael ei hystyried fel ysgol, fyddai'n bosib gosod palmant ar hyd y ffordd gyfagos er mwyn hwyluso mynediad? Ychwanegodd fod risg posib i'r Cyngor pe canfuwyd nad oedd wedi cydymffurfio a'i ddyletswyddau ar gyfer sicrhau mynediad diogel i ysgolion.

Mewn ymateb nododd y swyddogion oedd yn bresennol o'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Fod llwybr y sianel wedi ei effeithio gan y tywydd sych, oedd wedi lleihau effaith Afon Leri a dychwelyd i'w gwrs naturiol. Ychwanegodd fod natur y bar yn medru gwneud mynediad i'r harbwr yn anodd, ond 'roedd hefyd yn dod yn amlwg nad oedd sgiliau a gwybodaeth rhai perchnogion cychod yn cyrraedd y safon angenrheidiol. Roedd llawer o ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod pob bwi yn y safle cywir.
- Fod angen cael dyfynbris gan gontractwr ar gyfer ailadeiladu llwyfan cerdded pren newydd cyn gwneud penderfyniad terfynol. Ategwyd yr angen i warchod y twyni tywod rhag erydu.

- Nad oedd yn hawdd rheoli mynediad i'r Tir Comin/Storio rhag gwaredu anghyfreithlon, a gofynnodd i unrhyw un oedd a gwybodaeth i gysylltu gyda'r Cyngor neu'r Heddlu.
- Fod yr Harbwrfeistr yn cydweithio'n agos gyda defnyddwyr masnachol yr harbwr er mwyn sicrhau safle diogel a deniadol.
- Roedd dyfodol y Cei yn ddibynnol ar gynllun asedau newydd y Cyngor. 'Roedd yn cael ei fonitro a'i asesu yn rheolaidd ac 'roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gweithio ar achos busnes i'w ddiogelu fel rhan o'u gwaith atal llifogydd. Nid oedd yn amlwg eto faint fyddai'r gost o wneud y gwaith angenrheidiol, ond pan fyddai'r cyllid ar gael byddai'n bosib symud yn gyflym.
- Byddai tynnu'r bont bresennol i Fryn Llestair a gosod pont newydd yn ei lle yn costio oddeutu £100,000. 'Roedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda Network Rail gan fod y bont yn croesi rheilffordd 'fyw' a byddai angen cydweithio'n gyda hwy i gwblhau'r gwaith. 'Roedd y gwasanaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd y bont i ddefnyddwyr lleol ac 'roedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn gweithio ar yr asesiad o'r bont.
- Talwyd teyrnged i staff y gwasanaeth dros yr haf am eu gwaith caled dros haf prysur.

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei drefnu ar gyfer Tachwedd 12 2019 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 11.55 a.m.

CADEIRYDD.

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
DYDDIAD	12fed Tachwedd 2019
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod

- 2.1 Yn 2019/20 roedd ffigyrau angorfeydd yr Harbwr fel a ganlyn:-
- 2.2 Bu 68 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2019. Mae hyn yn cymharu â 74 yn 2018 a 78 yn 2017.
- 2.3 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, cafwyd gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid ym mhob un o'r harbyrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 2.4 Cofrestrwyd 892 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2019. Cofrestrwyd 55 o gychod yn Harbwr Aberdyfi o gymharu â 67 yn 2018.
- 2.5 Roedd 843 o gychod dŵr personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2019.
- 2.6 Cofrestrwyd 38 o gychod dŵr personol yn Harbwr Aberdyfi a Thywyn o'i gymharu â 53 y flwyddyn flaenorol.
- 2.7 Atodir copïau o'r holl ddata sy'n ymwneud â deiliadaeth a chofrestru.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordrwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

- 3.1.2 Rhwng 19eg a'r 21ain Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan Y Capten Forkanul Quader a'r Capten David Turner fel archwilwyr o'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau, ar y trefniadau

diogelwch presennol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol. Yn ystod yr archwiliad, hysbyswyd y Gwasanaeth am bethau ychwanegol y gellid eu gwneud i systemau presennol ei system rheoli diogelwch i gynorthwyo gyda chydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

3.1.3 Fel dilyniant i'r adolygiad cychwynnol, yn ystod y cyfnod rhwng 4ydd a'r 6ed Mawrth 2019, derbyniodd y Gwasanaeth ymweliad pellach gan Y Capten Forkanul Quader i weld sut oedd yr ychwanegiadau a awgrymwyd wedi'u gweithredu. Wrth archwilio, hysbysodd y Capten Quader ei fod yn fodlon bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Roedd aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi eisoes wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog, ble cafwyd cyflwyniad gan y Capten Quader ac roedd cyfle i bawb gael siarad gydag ef.

3.1.4 Er bod y Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ar gyfer yr Harbyrau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau, er mwyn adolygu'r Cod Diogelwch i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol.

4. Materion Staffio.

Mae'r Awdurdod Harbwr yn falch o hysbysu'r Pwyllgor Ymgynghorol bod Harbwrfeistr Cynorthwyol llawn amser wedi ei benodi a bydd yn cael ei leoli yn Harbwr Aberdyfi. Y gwaith a'r swyddogaeth yw cynorthwyo'r Harbwrfeistr gyda'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn ogystal â helpu mewn harbyrau eraill a thraethau pan a phryd fo angen.

5. Materion Ariannol.

5.1 Bydd crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd mis Medi 2019 yn cael ei rannu yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cyflogaeth staff
- Cynnal a Chadw Cymorthyddion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr gan gynnwys prynu peiriannau newydd
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd

5.3 Ffioedd a Thaliadau 2019/20.

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol am 2020/21, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, dywed y Gwasanaeth y bydd y ffi yn codi o tua 2%. Bwriedir hefyd i'r ffioedd lansio dyddiol i Gwch Pŵer a Chychod Dŵr Personol gynyddu o £10.00 i £15.00 y dydd. Ni fydd ffioedd y tocyn blynyddol yn newid.

Bydd copi drafft o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig yn cael ei rannu yn y cyfarfod.

6. Adroddiad yr Harbwrfeistr Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
DYDDIAD	12fed Tachwedd 2019
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	W. A Stockford, Harbwrfeistr Aberdyfi

H 1 Materion Mordwyo

- 1.1 Mae llwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi yn parhau i newid mymryn. Mae'r prif fanc tywod wrth ddynesu at yr aber wedi gostwng yn ei faint ar linell rhwng y Bwi 'Allanol' a'r cymhorthydd mordwyo starbord, Bwi Rhif 5. Er ei bod yn dal yn fas ar lanw isel, mae digon o ddŵr ar ôl i unrhyw gwch gyda dyfnder o ddwy fetr neu lai i fynd drwy'r sianel fordwyo dair awr bob ochr i benllanw.
- 1.2 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fonitro llwybr y sianel fordwyo i Aberdyfi a bydd yn gosod cymhorthion mordwyo mewn lleoliadau addas i hwyluso teithio'n ddiogel i mewn i'r harbwr.
- 1.3 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.
- 1.4 Hysbysiad i Forwyr rhif 8/19, ar hyn o bryd nid yw cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Bar Rhif 1 ar ei safle priodol. Cafodd y bwi ei niweidio'n andwyol yn ystod tywydd garw ac o ganlyniad nid oedd modd ei ddefnyddio. Prynwyd bwi yn ei le ac rydym yn disgwyl ei dderbyn yn fuan.
- 1.5 Hysbysiad Lleol i Forwyr 9/19. Tafod y De Rhif 3 - Nid yw'r cymhorthydd mordwyo starbord ar ei safle priodol ar hyn o bryd, ac mae'n disgwyl i gael ei ail-leoli.
- 1.6 Mae'r Gwasanaeth yn hysbysu y bydd yr holl farciau mordwyo yn eu lle ac yn hollol weithredol cyn gynted â bo hynny'n ymarferol bosib, yn dibynnu ar ymrwymadau'r contractwr mordwyo ynghyd â'r tywydd presennol ac amodau'r llanw.
- 1.7 Atgoffir morwyr o'r angen i gysylltu gyda swyddfa'r harbwr cyn dynesu at yr harbwr i gael y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

H 2 Materion Gweithredol

- 2.1 Mae gwaith pysgota masnachol wedi bod yn mynd rhagddo drwy'r haf a bydd yn parhau tan ddiwedd y tymor pan fydd y cyfarpar pysgota yn dechrau dod i'r lan. Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithio gyda gweithredwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant pysgota lleol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel yn yr harbwr ac o'i amgylch, yn cynnwys cadw offer pysgota a pharcio cerbydau masnachol ym mlaen yr harbwr.
- 2.2 Mae Ymddiriedolaeth yr Outward Bound a Chlwb Hwyllo Dyfi wedi cynnal rhaglenni prysur dros yr haf yn ardal yr harbwr.
- 2.3 Bu'n dymor cyffredin i fad achub Aberdyfi, gyda'r bad ond yn cael ei lawnsio i achub morwyr a phobl oedd angen cymorth ar y dŵr, ynghyd â gweithgareddau hyfforddi.

- 2.4 Gwelodd y Gwasanaeth gynnydd yn nifer y carcasau anifeiliaid a olchwyd ar y blaendraeth a olygodd mwy o waith ymatebol i adfer a gwaredu'r anifeiliaid dan sylw. Os ydych yn gweld unrhyw gyrff anifeiliaid gofynnir i chi roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosib.

H 3 Cynnal a Chadw

- 3.1 Yn ystod dechrau'r tymor bu'n rhaid ymgymryd â gwaith atgyweirio strwythurol ar gwch yr harbwr ar gost o £3500 i'r gwasanaeth. O ganlyniad, nid yw'r cwch yn cael ei ddefnyddio dros dro gan y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar am y gefnogaeth a dderbyniwyd gan Ymddiriedolaeth Outward Bound Aberdyfi a Chlwb Hwyllo Dyfi am y cymorth a gafwyd ganddynt tra roedd y cwch allan o'r dŵr.
- 3.2 Mae cwch yr Harbwr hefyd wedi cael dau beiriant Honda newydd ar gost ychwanegol i'r gwasanaeth o £8968.
- 3.3 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal a chadw sydd i'w chwblhau yn harbwr Aberdyfi yn ystod y cyfnod mis Tachwedd 2019 - mis Mawrth 2020. Gwerthfawrogwn adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

H 4 Materion Eraill

- 4.1 **Llwybr Pren y Clwb Golff** Yn ystod dechrau'r tymor fe dynnodd Clwb Golff Aberdyfi mwyafrif y llwybr pren o'r safle, gan adael dim ond rhan fechan ar ôl ym mhen gorllewinol y twyni tywod. Ar hyn o bryd, mae ysgolion tywod pren a ddarparwyd gan y Gwasanaeth yn parhau yn eu lle i roi mynediad ar draws y twyni i'r traeth tu hwnt.
- 4.2 **Pont Bryn Llestair** Mae'r sefyllfa gyda'r bont dros y rheilffordd i Fryn Llestair yn parhau fel yr oedd pan adroddwyd ar hyn ddiwethaf.
- 4.3 **Lloc y Pysgotwyr** Erbyn hyn codwyd ffens 2m o amgylch lloc y pysgotwyr am gost i'r Gwasanaeth o £8500.00 i sicrhau diogelwch y safle ac i atal taflu gwastraff anghyfreithlon. Wedi hynny, rydym wedi bod yn tacluso'r ardal a bydd y gwaith yma'n parhau dros y gaeaf. Trosglwyddwyd yr offer pysgota o ochr cei'r harbwr i'r safle i'w gadw a rhagwelir y bydd mwy o offer pysgota yn cael ei drosglwyddo fel y daw hi'n aeaf.
- 4.4 **Parcio Cerbydau ar Ochr y Cei** Mae'r Gwasanaeth yn parhau yn ymrwymedig i wella diogelwch cerddwyr ar y cei drwy gyfyngu mynediad i gerbydau yn y lleoliad hwnnw. Mae'r Prif Swyddog Morwrol mewn cysylltiad â'r unigolion hynny sy'n â chynhwysyddion ar dir ym mherchnogaeth Awdurdod yr Harbwr, ble y gobeithir darparu man parcio bach i gerbydau gan wneud i ffwrdd â'r angen i barcio ar ochr y cei.
- 4.5 **Eiddo.** Wedi ystyriaeth fanwl a thrafodaeth daethpwyd i'r casgliad mai'r lleoliad gorau i Swyddfa'r Harbwr yw ei lleoliad presennol. Mae lleoliad y swyddfa, ger y prif lithrfa gyhoeddus yn fan canolog i'r rhai sy'n defnyddio'r lithrfa a dyma'r lleoliad sydd orau gan ymwelwyr gyda ymholiadau am faterion yr harbwr.

Hysbyswyd gwasanaeth eiddo Cyngor Gwynedd am y penderfyniad a bydd yn cymryd camu priodol i sicrhau bod tenantiaid posib yn ymwybodol o'r cyfleoedd a all godi yng Nghanolfan Dyfi yn fuan, fuan iawn.

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud ymholiadau gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) am unrhyw newidiadau posib y gellid eu gwneud i swyddfa bresennol yr harbwr i gydymffurfio gyda gofynion lles staff a iechyd a diogelwch.

4.6 **Digwyddiadau**

Roedd y digwyddiadau isod ymysg y rhai a gynhaliwyd yn Harbwr Aberdyfi yn 2019

- o Dyfifest
- o Diwrnod ar y Cei
- o Gŵyl 'Pawennau' Aberdyfi
- o Nofio Aberdyfi
- o Digwyddiad Elusennol - 'Watercraft Blackrock Blast'

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli/ Hafan</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2014	22 Aberdyfi 1 Tywyn	65 Abermaw 5 Caerddaniel	20	36 Total Boat Care 1 Harbwr 47 Hafan	143	88 Abersoch 5 Machroes 3 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	250	693
2015	23 Aberdyfi 1 Tywyn	64 Abermaw a Caerddaniel	30	42 Total Boat Care 43 Hafan	157	76 Abersoch 1 Machroes 9 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	243	696
Tud. 13 2016	27 Aberdyfi 4 Tywyn	69 Abermaw	35	49 Total Boat Care 56 Hafan	183	101 Abersoch 20 Machroes 4 Morfa Nefyn 10 Nefyn 2 Aberdaron	174	734
2017	28 Aberdyfi 6 Tywyn	68 Abermaw	45	55 Total Boat Care 65 Hafan	165	122 Abersoch 10 Machroes 12 Morfa Nefyn 10 Nefyn 1 Aberdaron	151	738
2018	50 Aberdyfi 3 Tywyn	74 Abermaw	52	73 Total Boat Care 105 Hafan	200	188 Abersoch 9 Machroes 3 Morfa Nefyn 5 Nefyn 1 Aberdaron	160	923
2019	38 Aberdyfi a Tywyn	79 Abermaw	55	57 Total Boat Care 116 Hafan	184	137 Abersoch 5 Machroes 14 Morfa Nefyn 5 Nefyn 0 Aberdaron	153	843

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

Tud. 14

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli Harbour</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2014	54 Aberdyfi 8 Tywyn	64 Abermaw 11 Caerddaniel	24	118 Total Boat Care 8 Harbwr 85 Hafan	19	115 Abersoch 3 Machroes 30 Morfa Nefyn 14 Nefyn 21 Trefor 19 Aberdaron	408	1001
2015	52 Aberdyfi 3 Tywyn	71 Abermaw a Caerddaniel	30	99 Total Boat Care 5 Harbwr 104 Hafan	14	92 Abersoch 4 Machroes 23 Morfa Nefyn 13 Nefyn 16 Trefor 12 Aberdaron	449	987
2016	58 Aberdyfi 7 Tywyn	81 Abermaw	37	115 Total Boat Care 4 Harbwr 119 Hafan	31	101 Abersoch 71 Machroes 27 Morfa Nefyn 14 Nefyn 10 Aberdaron	336	1011
2017	53 Aberdyfi 9 Tywyn	66 Abermaw	37	103 Total Boat Care 3 Harbwr 117 Hafan	29	125 Abersoch 40 Machroes 48 Morfa Nefyn 19 Nefyn 11 Aberdaron 6 Trefor	289	955
2018	53 Aberdyfi 14 Tywyn	75 Abermaw	38	112 Total Boat Care 177 Hafan	34	161 Abersoch 31 Machroes 52 Morfa Nefyn 15 Nefyn 5 Aberdaron	290	1057
2019	55 Aberdyfi a Tywyn	66 Abermaw	33	97 Total Boat Care 172 Hafan	30	89 Abersoch 20 Machroes 60 Morfa Nefyn 14 Nefyn 12 Aberdaron	244	892

Uned Morwrol / Maritime Unit
Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics

<i>Harbwr Harbour</i>	<i>Nifer o Angorfeydd Available no of moorings</i>	<i>Preswlydd Occupancy</i>	<i>Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd</i>	<i>Eraill Others</i>
<i>Aberdyfi 2014</i>	120	75 (62.5%)	35 (46.7%)	40 (53.3%)
<i>Aberdyfi 2015</i>	120	77 (64.2%)	35 (45.5%)	42 (54.5%)
<i>Aberdyfi 2016</i>	120	79 (65.8%)	36 (45.6%)	43 (54.4%)
<i>Aberdyfi 2017</i>	120	78 (65.0%)	36 (46.2%)	42 (53.8%)
<i>Aberdyfi 2018</i>	120	74 (61.7%)	37 (50.0%)	37 (50.0%)
<i>Aberdyfi 2019</i>	120	68 (56.7%)	32 (47.1%)	36 (52.9%)
<i>Abermaw 2014</i>	140	82 (58.6%)	54 (65.9%)	28 (34.1%)
<i>Abermaw 2015</i>	140	93 (66.4%)	63 (67.7%)	30 (32.3%)
<i>Abermaw 2016</i>	140	88 (62.9%)	60 (68.2%)	28 (31.8%)
<i>Abermaw 2017</i>	140	86 (61.4%)	59 (68.6%)	27 (31.4%)
<i>Abermaw 2018</i>	140	69 (49.3%)	44 (63.8%)	25 (36.2%)
<i>Abermaw 2019</i>	140	70 (50.0%)	45 (64.3%)	25 (35.7%)
<i>Porthmadog 2014</i>	238	157 (66.0%)	44 (28.0%)	113 (72.0%)
<i>Porthmadog 2015</i>	238	140 (58.8%)	44 (31.4%)	96 (68.6%)
<i>Porthmadog 2016</i>	238	129 (54.2%)	47 (36.4%)	82 (63.6%)
<i>Porthmadog 2017</i>	238	135 (56.7%)	54 (40.0%)	81 (60.0%)
<i>Porthmadog 2018</i>	238	131 (55.0%)	54 (41.2%)	77 (58.8%)
<i>Porthmadog 2019</i>	238	130 (54.6%)	60 (46.2%)	70 (53.8%)
<i>Pwllheli 2014</i>	114	91 (79.8%)	47 (51.6%)	44 (48.4%)
<i>Pwllheli 2015</i>	114	87 (76.3%)	57 (65.5%)	30 (34.5%)
<i>Pwllheli 2016</i>	114	58 (50.9%)	27 (46.6%)	31 (53.4%)
<i>Pwllheli 2017</i>	81	60 (74.1%)	28 (46.7%)	32 (53.3%)
<i>Pwllheli 2018</i>	81	55 (67.9%)	27 (49.1%)	28 (50.9%)
<i>Pwllheli 2019</i>	81	58 (71.6%)	40 (69.0%)	18 (31.0%)

<i>Hafan 2014</i>	409	293 (71.6%)	51 (17.4%)	242 (82.6%)
<i>Hafan 2015</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2016</i>	409	287 (70.1%)	55 (19.2%)	232 (80.8%)
<i>Hafan 2017</i>	409	306 (74.8%)	57 (18.6%)	249 (81.4%)
<i>Hafan 2018</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2019</i>	409	299 (73.1%)	57 (19.1%)	242 (80.9%)
<i>Dco Fictoria 2014</i>	100	100 (100.0%)	25 (25.0%)	75 (75.0%)
<i>Doc Fictoria 2015</i>	100	100 (100.0%)	21 (21.0%)	79 (79.0%)
<i>Doc Fictoria 2016</i>	100	92 (92.0%)	19 (20.7%)	73 (79.3%)
<i>Doc Fictoria 2017</i>	100	92 (92.0%)	16 (17.4%)	76 (82.6%)
<i>Doc Fictoria 2018</i>	100	90 (90.0%)	21 (23.3%)	69 (76.7%)
<i>Doc Fictoria 2019</i>	100	94 (94.0%)	20 (21.3%)	74 (78.7%)

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig

Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwyllo a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

<i>Harbwr/Harbour Marina</i>	<i>Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings</i>	<i>Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring</i>	<i>Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats</i>	<i>Nifer Cychod Hwyllo Total number sailing boats</i>	<i>Canran (%) Pŵer V's hwyllo Percentage Power v's Sail</i>
Harbwr Aberdyfi 14	120	75	53	22	70.7% Pwer 29.3% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 15	120	77	53	24	68.8% Pwer 31.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 16	120	79	55	24	69.6% Pwer 30.4% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 17	120	78	56	22	71.8% Pwer 28.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 18	120	74	55	19	74.3 % Pwer 25.7% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 19	120	68	54	14	79.4% Pwer 20.6% Hwyllo
Tud. 17 Harbwr Abermaw 14	140	82	54	28	65.9% Pwer 34.1% Hwyllo
Harbwr Abermaw 15	140	93	60	33	64.5% Pwer 35.5% Hwyllo
Harbwr Abermaw 16	140	88	59	29	67.0% Pwer 33.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 17	140	86	55	31	64.0% Pwer 36.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 18	140	69	45	24	65.2% Pwer 34.8% Hwyllo
Harbwr Abermaw 19	140	70	44	26	62.9% Pwer 37.1% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 14	238	157	54	103	34.4% Pwer 65.6% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 15	238	140	45	95	32.1% Pwer 67.9% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 16	238	129	41	88	31.8% Pwer 68.2% Hwyllo

	Harbwr Porthmadog 17	238	135	42	93	31.1% Pwer 68.9% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 18	238	131	40	91	30.5% Pwer 69.5% Hwyllo
	Harbwr Porthmadog 19	238	130	42	88	32.3% Pwer 67.7% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 14	114	91	36	55	39.6% Pwer 60.4% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 15	114	87	46	41	52.9% Pwer 47.1% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 16	114	58	18	40	31.0% Pwer 69.0% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 17	114	60	19	41	31.7% Pwer 68.3% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 18	114	55	29	26	52.7% Pwer 47.3% Hwyllo
	Harbwr Pwllheli 19	114	58	26	32	44.8% Pwer 55.2% Hwyllo
Tud. 18	Hafan Pwllheli 14	409	293	139	154	47.4% Pwer 52.6% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 15	409	292	138	154	47.3% Pwer 52.7% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 16	409	287	137	150	47.7% Pwer 52.3% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 17	409	306	144	162	47.1% Pwer 52.9% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 18	409	292	150	142	51.4% Pwer 48.6% Hwyllo
	Hafan Pwllheli 19	409	299	133	166	44.5% Pwer 55.5% Hwyllo
	Doc Fictoria 14	100	100	36	64	36.0% Pwer 64.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 15	100	98	34	64	34.7% Pwer 65.3% Hwyllo
	Doc Fictoria 16	100	92	34	58	37.0% Pwer 63.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 17	100	92	28	64	30.4% Pwer 69.6% Hwyllo


Doc Fictoria 18	100	90	49	41	54.4% Pwer 45.6% Hwyllo
Doc Fictoria 19	100	94	29	65	30.9% Pwer 69.1% Hwyllo
Cyfanswm 14	1121	798	372	426	46.6% Pwer 53.4% Hwyllo
Cyfanswm 15	1121	787	376	411	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
Cyfanswm 16	1121	733	344	389	46.9% Pwer 53.1% Hwyllo
Cyfanswm 17	1121	757	344	413	45.4% Pwer 54.6% Hwyllo
Cyfanswm 18	1121	709	367	342	51.8% Pwer 48.2% Hwyllo
Cyfanswm 19	1121	719	328	391	45.6% Pwer 54.4% Hwyllo

HARBWR ABERDYFI HARBOUR


Cymhariaeth o Ystadegau Cychod Comparison of Boat Statistics

	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Nifer o Gychod / Number of Boats	75	77	79	78	74	68
Cyfanswm Hydoedd / Total LOA	491.79	520.12	524.10	515.02	480.92	451.96
Cyfartaledd Hyd / Average Length	6.56	6.75	6.63	6.60	6.50	6.65
Cyfanswm Dyfnder / Total Draught	57.55	58.79	57.36	58.60	50.91	46.54
Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught	0.77	0.76	0.73	0.75	0.69	0.68


Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hydoedd / Total Length




Cyfartaledd Hyd / Average Length



Cyfanswm Dyfnder / Total Draught



Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught



CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2019

COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2019




Harbwr Harbour	Nifer o Gychod Number of Boats	Cyfanswm Hydoedd Total Overall Length	Cyfartaledd Hyd Average Length	Cyfanswm Dyfnder Total Draught	Cyfartaledd Dyfnder Average Draught
Abermaw	70	512.00	7.31	65.13	0.93
Aberdyfi	68	451.96	6.65	46.54	0.68
Porthmadog	130	1030.04	7.92	128.80	0.99
Pwllheli	58	425	7.32	47.52	0.81
Cyfansymiau holl harbrau Totals of all harbours	326	2419.00	29.20	287.99	3.41
Cyfartaleddau holl harbrau Averages of all harbours	81.50	604.75	7.30	72.00	0.85


Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.

Analysis of boat statistics at each harbour.

Nifer o Gychod / Number of Boats




Cyfanswm Hyd / Total LOA




Cyfartaledd Hyd / Average LOA


Tud. 22



Cyfanswm Dyfnder / Total Draught



Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught



Morwrol a Pharciau							
Harbwr Aberdyfi			Diwedd Medi-2019				
Penawd	CYFRIF	DISGRIFIAD	CYLLIDEB 2019-20	GWARIANT hyd at 30 Medi 2019	YMRWYMIAD gwariant I 31st Medi 2019-20	Cyfanswm gwariant 2019-20	GOR (TAN) 2019-20
Staff	AGWE	Costau Staff	59,040	23,256	29,444	52,700	(6,340)
Eiddo	BEID	Tiroedd ac Eiddo	19,780	17,220	(1,276)	15,944	(3,836)
Trafnidiaeth	CTRA	Cwch a Cherbydau	660	125	425	550	(110)
Offer a Chelfi	DCYF	Offer a Chelfi	7,150	13,752	(6,602)	7,150	0
Asiantaeth/trydydd Parti	ETRY	Asiantaeth/trydydd Parti	0	800	0	800	800
Incwm	INCM	Incwm Harbwr	(30,900)	(20,078)	(5,457)	(25,535)	5,365
Cyfanswm	CYF	Cyfanswm	55,730	35,075	16,534	51,609	(4,121)

Please be advised that the bar is only passable 3 hours either side of high water.

N



Tud. 24



Aberdyfi Outer Buoy
Iso W.4

Bar Buoy No2
Fl.R.5s



Bar Buoy No1
Fl.G.5s



South Spit
No3
Q.F.G



No 5
Fl.G.4s



No 7
Fl.G.2s



YSM 4 Knots
Fl.Y.2s



Aberdyfi

Harbour Master's Office

Aberdyfi Harbour

Phone 01654 767626

Mobile 07879 433148

VHF Ch 12 & 16

williamstockford@gwynedd.llyw.cymru

NOT FOR NAVIGATION

September 2019

Outer Buoy	Lat 52° 32.000'N	Long 004° 05.550'W
Bar Buoy No1	Lat 52° 32.147'N	Long 004° 04.820'W
Bar Buoy No2	Lat 52° 32.203'N	Long 004° 04.786'W
No3 South Spit	Lat 52° 32.292'N	Long 004° 04.438'W
No5	Lat 52° 32.198'N	Long 004° 04.053'W
No7	Lat 52° 32.256'N	Long 004° 03.408'W
YSM 4 Knots	Lat 52° 32.469'N	Long 004° 02.861'W

Please contact the Harbour Office on arrival at the Outer Buoy for any updates to this chartlet

